Gala nofio yr Urdd 2001

Ar ddydd Llun, 19 Tachwedd 2001, nofiodd rhai o'r plant o Ysgol gynradd Penrhyn-coch yng ngala yr Urdd.

Cafodd Lydia Shaw, disgybl o blwyddyn 6, gyntaf yn y nofio rhydd ac ail yn y nofio broga yn y rhagbrofion gan ddod yn drydydd yn y rhydd a phedwerydd yn y rasus terfynol.

Daeth Megan – disgybl arall o blwyddyn 6 – yn ail yn y nofio pili-pala a'r nofio cefn yn y rhagbrofion a thrydydd yn y nofio cefn ac ail yn y nofio pili-pala yn y rasus terfynol.

Cafodd Rebecca Kenny – disgybl arall o blwyddyn 6 – gyntaf yn y nofio cefn a'r pili-pala yn y rhagbrofion ac ail yn y nofio cefn a thrydydd yn y pili-pala yn y rasus terfynol.

Daeth y tim cyfnewid yn gyntaf yn y rhagbrofion a phedwerydd yn y rasus terfynol.

Lydia Shaw a Rebecca Kenny

Helpu eraill

Dyma wir ystyr y Nadolig i ni sef cofio am eraill sydd mewn angen. Bu plant Penrhyn-coch yn brysur yn paratoi bocsys ar gyfer "Operation Christmas Child" yn ogystal a chasglu bwydydd i wneud Hamper Nadolig i'r henoed gyda Radio Ceredigion. Cafwyd Ffair ysgol ar ddydd Plant Mewn Angen gyda nifer o'r disgyblion (gan gynnwys y Prifathro) wedi gwisgo mewn gwisg ffansi ar y dydd.